

Datblygiad Iaith

Gwella sgiliau gwneud synau

Mae'r rhain yn weithgareddau hwyl i'w gwneud gyda phob plentyn ifanc, a gallant fod o gymorth penodol i blant sydd ag anhawster i wneud synau unigol yn glir.

Gwneud synau i'r plentyn ac ailadrodd y synau a wneir. Annog gweithgareddau sy'n cynhyrchu synau, fel amser cael bath, cosi a chwerthin.

Annog pob ymdrech i siarad, p'un a yw'n swnio fel gair cywir ai peidio. Lle y bo'n briodol, ailadroddwch y gair i helpu'r plentyn i ganfod bod gwneud synau a chynhyrchu "*geiriau*" yn ennyn ymateb gennych a'i fod yn hwyl.

Wrth ddysgu sut i siarad, mae'n bwysig bod y plentyn yn clywed yr un geiriau yn cael eu hailadrodd, felly cynghorir rhieni i ailadrodd ymadroddion fel "*Dyna fuwch, wyt ti'n gweld y fuwch?*".

Dynwared synau anfeiliaid ac ati.

Ailadrodd cerddi neu ganeuon sy'n cynnwys synau fel Bys y Cloc, Dacw Dadi'n Mynd i'r Ffair ac Mi Welais Jac y Do. Gwranddo ar dapiau o rigymau plant yn y car a chanu gyda hwy.

Trefnu lluniau yn ôl y sŵn cyntaf neu'r sŵn olaf.

Darllen llyfrau stori ag odlau.

Torri a gosod lluniau o eiriau sy'n dechrau â'r un llythyren ar ddalenni papur.

Afasic Cymru
Ystafell 203
Tŷ Titan
Canolfan Fusnes Bae Caerdydd
Heol Lewis
Ocean Park
Caerdydd CF24 5BS

Ffôn: 029 2046 5854
Ffacs: 029 2046 5861
Llinell gymorth: 08453 55 55 77
E-bost: jeannette@afasiccymru.org.uk
www.afasiccymru.org.uk

